**LC264**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Y cefndir**

Mae cyfres o reoliadau, yn dwyn rhifau 1-6, bob un am ryw gyfnod dros dro, wedi cyflwyno cyfyngiadau ar fewnforio ac allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid penodol. Mae'r rheolau hyn wedi bod yn cyd-fynd â chyfres o Benderfyniadau gan y Comisiwn. Mae'r rheoliadau presennol yn diwygio Rheoliadau Rhif 6, sef y rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd.

O dan reoliadau Rhif 6, gwaharddwyd allforio cig o rywogaethau penodol o anifeiliaid ac eithrio o dan rai amodau penodedig. Mae'r rheoliadau presennol yn cyflwyno diwygiad sy'n peri newidiadau yn y marciau penodedig y mae angen eu gosod ar gynhyrchion sy'n cael eu hallforio o dan y darpariaethau hyn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

22 Mai 2001